**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor y Panel Ariannu Allanol

**Ystafell Bwyllgor 5 – Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 1 Awst 2018 am 2.00pm**

**Yn Bresennol**: Bu'r Cynghorydd J A Raynor (Cadeirydd Dros Dro) yn llywyddu tan Gofnod 60
Bu'r Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) yn llywyddu o Gofnod 60

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | M C Child | E J King |
| A S Lewis | J A Raynor | M Thomas |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Ben George | Swyddog Strategaeth Cludiant |
| Richard Horlock | Datblygu Economaidd a Chyllid Allanol |
| Clare James | Swyddog Prosiectau a Datblygu Economaidd |
| Chloe Lewis | Cludiant |
| Paul Meller | Cynllunio Strategol ac Amgylchedd Naturiol |
| Lyndsay Thomas | Uwch-gyfreithiwr |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Gaynor Winsor | Cyfrifydd |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: W Evans, R Francis-Davies a D H Hopkins ac M Sherwood

---

## 58 Ethol Cadeirydd Dros Dro

Etholwyd y Cynghorydd J A Raynor yn Gadeirydd Dros Dro.

**Bu'r Cynghorydd J A Raynor (Cadeirydd Dros Dro) yn llywyddu.**

## 59 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd E J King fudd personol yng Nghofnod 61 'Cais i gronfa Teithio Llesol 2018/19' fel gweithiwr y DVLA.

Datganodd y Cynghorydd R S Stewart fudd personol yng Nghofnod 61 'Cais i gronfa Teithio Llesol 2018/19' fel gweithiwr y DVLA.

**Bu'r cynghorydd RC Stewart (Cadeirydd) yn llywyddu.**

## 60 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y Panel Ariannu Allanol a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2018 fel cofnod cywir.

## 61 Cais i gronfa Teithio Llesol 2018/19

Cyflwynodd y Swyddog Strategaeth Cludiant adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth mewn perthynas â chais am gyllid ar gyfer cronfa Teithio Llesol 2018/19.

Manylodd ar y cefndir, y ceisiadau a gyflwynwyd a manylion y cynllun arfaethedig.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

**Penderfynwyd cymeradwyo** Cronfa Teithio Llesol 2018/19.

## 62 Trosolwg o'r Ceisiadau Presennol a'r Rhai Sydd ar Ddod am Arian Ewropeaidd ac Allanol.

Darparodd cydweithwyr o Dîm Datblygu Economaidd a Chyllid Allanol a Chynllunio Strategol ac Amgylchedd Naturiol ddiweddariad ar geisiadau Ewropeaidd arfaethedig a cheisiadau eraill am gyllid allanol.

Gofynnodd aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

**Penderfynwyd:**

1. **cymeradwyo** cynlluniau busnes a gyflwynwyd i sicrhau cyllid gan raglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol Llywodraeth Cymru i adnewyddu adeilad Kings, Orchard House a hen adeilad BHS.
2. **cymeradwyo** cyflwyno ffurflenni cais i Raglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio Llywodraeth Cymru i sefydlu ac arwain y Gronfa Datblygu a Gwella Eiddo a'r Gronfa Byw'n Gynaliadwy ar ran y rhanbarth.
3. **cymeradwyo** cyflwyno ceisiadau i grant Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cyflwyno Gwrychoedd Gŵyr, Ein Natur: Ein Dyfodol a phrosiectau Gwirfoddolwyr Bywyd Gwyllt Abertawe.
4. Mae'r panel yn cefnogi Cyngor Abertawe wrth iddo fabwysiadu rôl arweiniol ym mhrosiect Parc Briallu a chyflwyno ail-broffil er mwyn sicrhau cyllid gan WREN er mwyn cyflwyno'r prosiect.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30pm

**Cadeirydd**